# Ydych chi'n berson ifanc sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful neu RhCT??
# Mae eich Iechyd Rhywiol yn Bwysig

## Cynllun Cerdyn Condom (Cerdyn C)

Ar gael i unrhyw un rhwng 13 – 25 oed sy'n cael rhyw, neu sydd angen cymorth, cyngor neu wybodaeth yn ymwneud â rhyw a pherthnasoedd. Mae condomau am ddim ar gael drwy'r cynllun.

Ewch i'r ddolen isod neu'r cod QR ar gyfer lleoliadau yn eich ardal

http://cccymru.co.uk/outlets/find/

CYNLLUN CERDYN C CYMRU GYFAN
ALL WALES C CARD SCHEME

## Iechyd Rhywiol Cymru

### CONDOMAU AM DDIM

Gall unrhyw un dros 16 oed archebu condomau am ddim ar-lein drwy'r post.

### PROFION STI AM DDIM

Mae pecynnau profi STI AM DDIM ar gyfer Clamydia, Gonorea, HIV, Siffilis, Hepatitis B a Hepatitis C ar gael drwy radbost i unrhyw un 16+ sy'n byw yng Nghymru. Os oes gennych ganlyniad prawf positif, bydd eich gwasanaeth iechyd rhywiol lleol yn cysylltu â chi i drefnu triniaeth a gofal cyfrinachol am ddim.

### GWYBODAETH AM ATAL CENHEDLU

Meddwl am ddefnyddio dull atal cenhedlu? Dysgwch pa ddull atal cenhedlu a allai fod yn addas i chi.

## Clinigau Iechyd Rhywiol

### Beth sy'n cael ei gynnig?

Atal cenhedlu
Sgrinio iechyd rhywiol
Cyngor a chymorth mewn perthynas ag atal a thriniaeth HIV
Clinigau sgrinio ceg y groth

### Sut mae gwneud apwyntiad?

I wneud apwyntiad mewn clinig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful neu RhCT, cysylltwch ag un o'n Llinellau Brysbennu ar 01685 728272 neu 01443 443836

Tu allan i oriau: Iechyd Menywod Ysbyty'r Tywysog Siarl trwy'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys

### Beth am gyngor ar feichiogrwydd/terfynu beichiogrwydd?

Bodywise (Rhondda/Taf): 01443 443192
Gwasanaeth Cynghori Beichiogrwydd (Merthyr/Cynon) 01685 728497
Gwasanaeth Cynghori Beichiogrwydd (Pen-y-bont ar Ogwr): 01792 200303

## Fferylliaeth yn y Gymuned

Dulliau atal cenhedlu brys am ddim hyd at 120 awr ar ôl cael rhyw heb ddiogelwch**
Cyflenwad 3 mis o atal cenhedlu geneuol am ddim**

**Mae angen ymgynghoriad i wirio addasrwydd

Mae rhai fferyllfeydd hefyd ar gael ar benwythnosau.

Ffoniwch ymlaen llaw cyn cyrraedd i wirio a yw eich Fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth sydd ei angen arnoch.

CYNNAL EIN DYFODOL | YSBRYDOLI POBL | GWELLA GOFAL | CREU IECHYD

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board